*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan/*Website: https://ysgolplascoch.cymru

Annwyl rieni/gwarchodwyr 12/02/2026

Rydym yn falch o adael i chi wybod y bydd cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 fynychu ymweliad tridiau i Gaerdydd o ddydd Mercher hyd ddydd Gwener, Mehefin 3ydd - 5ed 2026.

Byddwn yn trefnu'r daith ar y cyd gyda'r gwersyll yng Nghaerdydd ac amcangyfrif o'r gost yw **£205.00**. Nid ydym yn disgwyl newid mawr i'r gost un ffordd na'r llall ond mae'n dibynnu ar gost rhai o'r gweithgareddau sydd eto i'w cadarnhau. Does dim rhaid bod yn aelod o'r Urdd i fynychu.

Mae'r pris yma yn cynnwys trafnidiaeth, bwyd a llety a mynediad i atyniadau a gweithgareddau (eto i'w cadarnhau) megis bowlio deg, Stadiwm Dinas Caerdydd, taith ar gwch yn y Bae, Techniquest, Royal Mint. Bydd yna hefyd gyfle o bosib i ymweld efo atyniadau fel Pwll Mawr, Amgueddfa Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol. Yn ystod y tridiau, bydd y plant yn aros yng Nghanolfan Yr Urdd sy'n rhan o Ganolfan y Mileniwm (https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/gwersyll-caerdydd/). Bydd staff o'r ysgol yn mynd efo'r plant am y tridiau gyda'r nifer yn dibynnu ar faint o blant sy'n mynd.

Os hoffech i'ch plentyn gael manteisio ar y cyfle arbennig hwn a fyddech yn cwblhau'r atodiad isod a'i ddychwelyd i'r ysgol a thalu **blaendal o £35.00 ar ParentPay erbyn 13.2.26**. Mi fydd y trip yn fyw ar ParentPay o 30.1.26 os hoffech wneud taliadau pob yn dipyn. Mae angen talu'r cwbl erbyn 15.5.26 os gwelwch yn dda.

Mae'n bosib eich bod yn gymwys i gael rhyddhad rhag talu am gost y llety a'r bwyd sef £138.00 (nid y bws a'r gweithgareddau) os ydych yn derbyn un o'r canlynol:-

- Credyd Cynhwysol – os ydych yn gweithio mae rhaid i chi ennill llai nag £7,400 y flwyddyn (£616.67 y mis)
- Cymhorthdal incwm
- Lwfans ceisio gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Lwfans mewnfudo a cheiswyr lloches
- Credyd pensiwn
- Credyd Treth Plant - cyn belled nad oes gennych hawl i Gredyd Treth Gwaith gyda chyfanswm incwm blynyddol o dan y terfyn a osodwyd gan CThEM

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i un o'r uchod a fyddech cystal â gadael i ni wybod a darparu llungopi (gellir gwneud copi yn yr ysgol) o ddogfen sy'n dystiolaeth i ni ei yrru i'r sir, yn ogystal â'ch dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y daith, mae croeso i chi gysylltu efo'r ysgol.

Yn gywir

Osian Jones
Pennaeth

✂.........................................................................................................................

**DYCHWELER YR ATODIAD ERBYN 13.2.26**

CWRS CAERDYDD

Enw: ______________________________ Dosbarth: ______________________________

Bydd fy mhlentyn yn mynd i Gaerdydd ac rwyf wedi talu blaendal o £35 ar ParentPay ☐

Ni fydd fy mhlentyn yn mynd i Gaerdydd ☐

Arwyddwyd: ______________________________